# 1 CÂN Y CATHREINWR

## (*THE OX-DRIVER'S SONG*)




(a) Go brin bod dal ar y nodyn hwn i'r un graddau pe cenid y gân gynt i rithm cerdded wrth weithio'r ychen.

(a) *Presumably, this note would not have been held to the same extent if the song were sung to walking rhythm whilst working the oxen.*

2. Mi geso i 'ngwawdd i gino
   A chal pinclwns wedi'u stiwo,
   Bara (h)aidd fel r(h)ishgil co(e)d;
   Ni cheso i 'rio(e)d well greso! Ma-hw!

3. Tri pheth sy dda gin grotyn
   Yw gwraig y tŷ yn w(h)erthin
   A'r crochon bach yn berwi'n ffrwd
   A llond y cwd o bwdin. Ma-hw!

4. Tri pheth sy'n gas a lletwith
   Yw (h)wch â iwc miwn gwenith,
   Atgor gwan yn torri ton
   A phac o gryddion llaw-w(h)ith! Ma-hw!

5. Tri pheth an-(h)awdd eu 'napod;
   Dyn, derwan a diwarnod;
   Y pren yn gou a'r dydd yn troi
   A dyn yn ddouwynepog. Ma-hw!

Tâp AWC 4. Recordiwyd Medi 1953 gan Robert Thomas (ffermwr, g. 1865), Rock House, Twynyrodyn, ger Gwenfô, sir Forgannwg. Ac yntau ond 13 oed dysgodd RT ganu'r tribannau hyn a'u bath wrth helpu i gathrain (sef gyrru neu symbylu) ychen a oedd yn aredig ar fferm Doghill yn Nylfryn Golych, ger Sain Nicolas.